Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| 36.5 | 04/09/2023 | |
| Teitl | | Er |
| **Adroddiad Blynyddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2022-23** | | *Gwybodaeth* |

**Crynodeb o'r Materion**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion. Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro gan is-grŵp Tlodi'r BGC.

Dyma adroddiad olaf ein 'Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi' annibynnol. Wrth symud ymlaen, cytunwyd y bydd is-grŵp Tlodi'r BGC yn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn cael ei gynnal fel mater trawsbynciol ar draws yr holl feysydd gwaith a wneir i gyflawni Cynllun Llesiant Lleol BGC Ceredigion 2023-28. Mae cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i'n helpu i gyflawni hyn.

Tri phrif amcan Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion 2020-2023 oedd:

- Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, dod i ddeall effaith COVID-19, wrth iddi newid, ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.

- Cydgysylltu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo'r holl gymorth sydd ar gael a manteisio ar y cymorth hwnnw.

- Pennu bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran yr anghenion caledi wrth iddynt newid i lunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19

Rydym wedi cyflawni hyn. Mae'r is-grŵp Tlodi wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi trafod ystod eang o faterion i'n helpu i ddeall effaith caledi ar ddinasyddion Ceredigion. Mae'r dangosfyrddau data a ddatblygwyd i gefnogi'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio'n eang gan bartneriaid ac wedi'u cydnabod ledled Cymru fel enghraifft o arfer da.

Mae'r cynllun gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi a'r adroddiadau rheolaidd wedi ein helpu i gydgysylltu ein camau gweithredu. Mae'r dudalen Costau Byw ar wefan y Cyngor a'r daflen Costau Byw, a bostiwyd i holl godau post Ceredigion yn ystod gaeaf 2022, wedi helpu i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael.

| |
|---|
| Mae bylchau mewn cymorth wedi'u nodi ac, er nad oeddem yn gallu mynd i'r afael â'r holl fylchau hyn, rydym wedi gallu ymateb i rai, er enghraifft y rhwydwaith o 54 o Fannau Croeso Cynnes a oedd yn cynnig lle cynnes a chyfeillgar i gymunedau ddod at ei gilydd yn ystod gaeaf 2022.<br><br>Mae'r adroddiad llawn ar gyfer y cyfnod Mawrth 2022 – Ebrill 2023 ynghlwm. |
| Goblygiadau Ariannol |
| Dim. |
| Argymhellion |
| Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol 2022-23 |
| Atodiadau |
| Adroddiad Blynyddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion 2022-23. |
| Swyddog Adrodd |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (Cathryn Morgan) |